*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174(4) a (5)(l) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2003) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("y Ddeddf") yn galluogi Gweinidogion Cymru i dalu grantiau i awdurdodau lleol tuag at wariant yr aed iddo, neu yr eir iddo, ganddynt.

Mae'r rhestr o gyrff a gynhwysir fel awdurdod lleol at ddibenion yr adran honno wedi ei nodi yn adran 33 o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 33 i ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y rhestr o awdurdodau lleol y gall Gweinidogion Cymru dalu grantiau iddynt o dan adran 31 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174(4) a (5)(l) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2025 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2003) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *20 Hydref 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2003) (Cymru) 2025 a deuant i rym ar 20 Hydref 2025.

(**1**) 2021 dsc 1.

**Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2003**

**2.** Yn adran 33(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**), ar ôl paragraff (jd) mewnosoder—

"(je) a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;"

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) 2003 p. 26. Diwygiwyd adran 33 gan baragraff 101 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), adran 27(4) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (p. 13) a pharagraff 151 o Atodlen 4 i Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.